OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2008 Rhif 2568 (Cy.226)

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2008

Gwnaed - - - -	*1 Hydref 2008*
Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -	*2 Hydref 2008*
Yn dod i rym - -	*27 Hydref 2008*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adrannau 130, 131, 132 a 203(9) a (10) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(**1**) drwy hyn yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

Enwi, cychwyn, cymhwyso a dehongli

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2008 a deuant i rym ar 27 Hydref 2008.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "y prif Reoliadau" ("*the principal Regulations*") yw Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl (Cymru) 2007(**2**).

Diwygio rheoliad 2 o'r prif Reoliadau

2.—(1) Diwygir rheoliad 2 o'r prif Reoliadau (dehongli) fel a ganlyn.

(2) Yn y diffiniad o "teulu" ("*family*"), ar ôl is-baragraff (a) mewnosoder—

"(aa) yn rheoliad 5(1)(ch) mewn perthynas â pherson sy'n derbyn lwfans cyflogi a chefnogi y mae iddo'r ystyr sydd iddo yn rheoliad 2 o'r Rheoliadau Lwfans Cyflogi a Chefnogi 2008(**3**),".

(3) Yn y testun Cymraeg, yn y man priodol yn nhrefn yr wyddor mewnosoder y diffiniad a ganlyn —

(**1**) 2006 p.42.
(**2**) O.S. 2007/1104 (Cy.116) ("y Rheoliadau"); yr offerynnau diwygio perthnasol yw O.S. 2008/1480 (Cy.153) a 2008/1879 a fewnosododd y diffiniad o "income-related employment and support allowance" yn nhestun Saesneg rheoliad 2 ac a ychwanegodd y geiriau "income-related employment and support allowance" i destun Saesneg rheoliad 5(1)(d) o'r Rheoliadau.
(**3**) O.S. 2008/794.